

Taflen Ffeithiau

Hysbysiad Cymryd Meddiant
Cyfeirir ato'n aml fel Hysbysiad
Ymadael (ADRAN 21)



Rwyf wedi derbyn Hysbysiad. Beth mae'n ei olygu?

Os yw'ch Landlord wedi rhoi Rhybudd ichi mae'n golygu eu bod am ail-feddiannu'r eiddo. Ni all y landlord roi Hysbysiad ichi os:

- Ydych yn byw mewn Tŷ Amfeddiannaeth ac nad yw wedi ei drwyddedu
- Nid yw'r Landlord wedi gwarchod eich blaendal mewn Cynllun Gwarchod Blaendal. Dylai'r blaendal (yn y rhan fwyaf o achosion) fod wedi ei warchod a'r wybodaeth ofynnol ('gwybodaeth benodedig') wedi ei roi ichi o fewn 30 diwrnod i gychwyn eich tenantiaeth.
- Os nad yw'r landlord wedi gweithredu'n unol â rheolau'r Cynllun Blaendal Tenantiaeth ni chânt gyflwyno rhybudd a. 21 cymwys hyd nes:
 1. Bod y blaendal wedi ei ddychwelyd i'r tenant (yn ddibynnol ar dynnu unrhyw daliadau a gytunwyd oddi arno)
 2. Mae'r tenant wedi gwneud cais yn y llys sirol gan nad yw'r tenant wedi cydymffurfio gyda rheolau'r Cynllun Blaendal Tenantiaeth ac mae'r llys wedi gwneud penderfyniad ar y cais, mae'r cais wedi ei dynnu yn ôl neu mae wedi ei setlo y tu allan i'r llys gan y landlord a'r tenant.
- Gall landlord gynnig tenantiaeth o dymor penodol o lai na 6 mis a gall gyflwyno rhybudd a.21 i ddod i ben cyn bod y 6 mis ar ben a gall wneud cais i'r llysoedd cyn diwedd y 6 mis. Fodd bynnag mae gennych hawl i aros am leiafswm o 6 mis ac ni ellir rhoi meddiant tan eich bod wedi bod yn byw yno am gyfnod o 6 mis.

Ond dwi ddim wedi gwneud dim byd o'i le!

Tenantiaethau Byrddaliad Sicr yw tenantiaethau'r Sector Breifat fel arfer. Fel arfer gall y Landlord wneud cais am feddiant heb fod angen na phrofi unrhyw seiliau. Mae ganddynt 'hawl awtomatig i feddiant' o dan Adran 21 Deddf Tai 1988.

Faint o rybudd ddylai fy landlord roi imi?

Yn Ystod Cyfnod Penodol - Fel arfer ni all landlord ddefnyddio camau gweithredu rhybudd a.21 yn ystod cyfnod penodol, ond mae'n bosib y gall wneud hynny os oes cymal terfynu yn y cytundeb tenantiaeth. Os ydych wedi llofnodi cytundeb tenantiaeth sy'n para dros gyfnod penodol o amser (e.e. 6 mis, 12 mis) a bod y Landlord am gyflwyno Rhybudd i chi yn ystod y cyfnod hwnnw, rhaid iddynt roi o leiaf 2 fis o Rybudd ysgrifenedig ichi a rhaid i'r 2 fis ddod i ben ar ddiwrnod olaf y tymor penodol ond ni all gorchymyn ildio meddiant ddod i rym hyd nes 6 mis o ddechrau'r denantiaeth.

Yn dilyn Tymor Penodol - Os ydych wedi llofnodi cytundeb tenantiaeth sy'n para dros gyfnod penodol o amser (e.e. 6 mis, 12 mis) a bod y denantiaeth wedi dod i ben, tenantiaeth gyfnodol yw hon. Os taw wythnos yw'r cyfnod rhwng taliadau rhent, dyma "denantiaeth gyfnodol wythnosol". Os taw un mis yw'r cyfnod, dyma "denantiaeth gyfnodol fisol". I ddod â'r math yma o denantiaeth i ben rhaid i'r Landlord roi o leiaf 2 fis o rybudd ysgrifenedig i chi. Nid yw'n ofynnol i'r rhybudd ddod i ben ar ddiwrnod olaf cyfnod tenantiaeth (os nad yw'n denantiaeth gyfnodol gytundebol (cyfnodol o'r cychwyn heb gyfnod penodol)).



A all y Tîm Datrysiadau Tai fy helpu??

Gallwn – Byddwn yn eich cynghori am eich opsiynau ac yn rhoi cyngor ar ddarganfod llety amgen fforddiadwy. Byddwn hefyd yn gwirio os yw'ch rhybudd yn gymwys fel y nodir uchod. Os nad yw'n ymddangos yn gymwys, gallwn gysylltu â'ch landlord i drafod.

Oes unrhyw wasanaethau eraill all roi cymorth a chefnogaeth i mi?

Oes - Gall ein hasiantaethau partner gynnig amrywiaeth o gefnogaeth a chyngor.

Shelter
Cymru

☎ 01792 469400

💻 www.sheltercymru.org.uk

📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18 1AT

**citizens
advice**

Cyngor ar Bopeth

☎ 0344 477 2020

💻 www.citizensadvice.org.uk

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX

